Dŵr Cymru
Welsh Water

# Yn y busnes o arbed dŵr



# Oeddech chi'n gwybod?

**Beth bynnag fo natur eich busnes, gallwch arbed arian a gwella'ch perfformiad o ran cynaliadwyedd trwy ddefnyddio'r dŵr sydd ei angen arnoch a dim mwy.**

Bydd cwtogi hyd yn oed ychydig bach ar faint o ddŵr mae'ch busnes yn ei ddefnyddio'n gwneud gwahaniaeth mawr. A dweud y gwir, gallech leihau eich bil dŵr cymaint â 50% trwy fynd ati mewn ffordd systemataidd i sicrhau effeithlonrwydd dŵr.

Bydd defnyddio llai o ddŵr yn arbed arian, yn lleihau eich ôl troed carbon, a thrwy ddefnyddio llai o ddŵr mewn proses gweithgynhyrchu lle mae angen cynhesu dŵr, byddwch chi'n lleihau eich biliau ynni hefyd.

> Mae'r busnes cyfartalog yn y DU yn defnyddio 30% yn fwy o ddŵr nag sydd ei angen.

# Dyma ambell i awgrym i arbed dŵr sy'n werth eu hystyried yn eich busnes..

# Monitro'ch defnydd o ddŵr

## Y cam cyntaf ar eich siwrnai i ddefnyddio dŵr yn effeithlon yw deall eich defnydd cyfredol.

Ffeindiwch eich mesuryddion a'ch is-fesuryddion, a chymerwch ddarlleniadau rheolaidd os yw'n ddiogel gwneud hynny. Pennwch rywun i fod yn gyfrifol am ddarllen y mesuryddion yn wythnosol neu'n fisol. Bydd hyn yn rhoi gwaelodlin defnyddiol i chi fesur eich busnes yn ei erbyn, a gallai eich helpu chi i ddod o hyd i ollyngiadau hefyd.

# Trwsiwch unrhyw ollyngiadau

## Oeddech chi'n gwybod fod dros 90% o ollyngiadau'n gudd?

Ond mae yna gamau syml y gallwch eu cymryd i'w ffeindio nhw. Cofiwch drwsio unrhyw ollyngiadau'n syth. Gall cynnydd amlwg yn eich defnydd, neu bwysedd dŵr isel awgrymu bod dŵr yn gollwng. Cadwch lygad am bibellau dŵr sy'n gollwng o dan y ddaear neu ollyngiadau ar y system blymio fewnol, ar dapiau awyr agored ac ar offer taenellu a chwistrellu.



# Yn y toiledau neu'r ystafell ymolchi

**Prynwch gyfarpar sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon lle bo modd, trwy chwilio am offer darbodus.**

### Tapiau
Gall tap sy'n diferu wastraffu llawer o ddŵr dros amser ac arwain at filiau uwch.

### Fflysio wrinalau
Mae wrinalau sy'n fflysio'n ddi-baid yn gallu gwastraffu cannoedd o litrau'r awr. Os ydych chi'n gosod wrinalau newydd, gall defnyddio dyfais rheoli leihau eich defnydd o ddŵr cymaint â 70% trwy sicrhau bod y fflysio'n stopio pan nad oes neb yn defnyddio'r lle.

### Fflysio toiledau
Gall toiledau hŷn ddefnyddio hyd at 13 litr y fflysh. Os oes gennych seston hŷn, ystyriwch ddefnyddio dyfais arbed dŵr fel bag 'Hippo' neu fag 'Save-a-Flush'. Bydd hyn yn arbed rhwng un a tri litr y fflysh.

### Toiledau sy'n gollwng
Mae toiledau modern â fflysh deuol (y rhai â botwm gwthio) yn gallu gollwng am fod y botwm yn cydio neu am fod y falf yn ddiffygiol. Mae hyn yn gallu gwastraffu dros 250 litr yr awr, felly cadwch lygad ar eich holl doiledau (yr arwydd amlycaf yw staenio ar gefn y pan lle mae'r dŵr yn llifo o'r fan lle mae'n gollwng i'r seston).

### Cawodydd
Mae pennau cawod wedi eu hawyru'n gallu cwtogi hyd at 50% ar eich defnydd o ddŵr a gwella'r profiad o gael cawod hefyd.



# Yn y gegin neu'r cantîn

- Lle bo modd, defnyddiwch beiriant golchi llestri yn lle cael gweithwyr i olchi platiau a chwpanau ar wahân.
- Llenwch bowlen o ddŵr yn hytrach na gadael i'r tap redeg a mynd yn wastraff i lawr y plwg.
- Bydd teclyn oeri sy'n cael ei fwydo trwy'r prif gyflenwad yn darparu cyflenwad o ddŵr oer i'ch gweithwyr yn hytrach na bod angen rhedeg tap er mwyn oeri'r dŵr.

Mae pibellau chwistrellu a theclynnau taenellu'n defnyddio mwy o ddŵr mewn awr nag y bydd teulu o bedwar yn ei ddefnyddio mewn diwrnod.

# Tiroedd

**Mae miloedd o litrau o ddŵr yn cael eu gwastraffu ar waith cynnal a chadw tiroedd bob dydd, yn enwedig dros fisoedd yr haf.**

### Chwistrellau pwysedd uchel

Gall offer chwistrellu pwysedd uchel ddefnyddio llai o ddŵr na phibellau confensiynol am eu bod yn defnyddio pwysedd i lanhau yn lle llawer o ddŵr.

### Casgenni dŵr

Ystyriwch gasglu dŵr glaw mewn tanc neu gasgen a'i ddefnyddio i ddyfrio planhigion a phrysgwydd. Wrth dirweddu, ceisiwch ddewis planhigion a phrysgwydd sy'n gallu gwrthsefyll amodau sych.



# Glanhau

**Golchi cerbydau**

Ceisiwch leihau eich gweithgareddau golchi cerbydau. Wrth olchi cerbydau neu offer, ystyriwch ailgylchu'r dŵr.

**Glanhau ffenestri**

Chwiliwch am gyfleoedd i leihau neu flaenoriaethu gweithgareddau glanhau ffenestri.

# Gwnewch y peth yn rhan o'ch diwylliant

**Er y bydd llawer o'ch gweithwyr eisoes yn defnyddio mesurau arbed dŵr yn y cartref, mae'n bosibl na fyddan nhw'n gwybod sut i wneud yr un peth yn y gweithle.**

Rhannwch wybodaeth arbed dŵr, cyflwynwch gynllun casglu awgrymiadau gan weithwyr neu trefnwch sesiwn effeithlonrwydd dŵr i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd defnyddio dŵr yn ddoeth. Er enghraifft, gall roi gwybod i'ch staff fod tap sy'n gollwng neu sy'n cael ei adael i redeg yn gallu gwastraffu 60 litr o ddŵr yr wythnos eu cynorthwyo i ddeall sut mae eu gweithredoedd yn effeithio'n uniongyrchol ar eich biliau a'r amgylchedd.

# Defnyddiwch offer sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon

**Gall dull tymor hwy o weithredu, lle'r ydych chi'n chwilio am ddefnydd isel o ddŵr yn benodol wrth ystyried unrhyw gyfarpar, ffitiadau neu brosesau newydd, fod o gymorth mawr wrth helpu i leihau eich defnydd o ddŵr.**

**Am brynu offer effeithlonrwydd dŵr?**
Mae llawer o gynhyrchion effeithlonrwydd dŵr ar gael ar lein

# Am gael rhagor o wybodaeth?

Trwy wneud newidadau bach, gallwch leihau eich biliau yn sylweddol at y dyfodol. Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth ac awgrymiadau defnyddiol am ffyrdd o arbed dŵr, gan gynnwys canllaw defnyddiol rhad ac am ddim ar gyflawni hunan-asesiad o effeithlonrwydd dŵr yn eich busnes.

Os hoffech chi gael rhagor o gymorth, am ffi gallwn arolygu'r ardaloedd domestig yn eich busnes er mwyn eich cynorthwyo i ddod o hyd i ffyrdd o wneud arbedion trwy leihau faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio. Mae hi'n ffordd gyflym a hwylus o gael tawelwch meddwl – neu i ddod i wybod am gymhlethdodau a'u trwsio.

**Cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Busnes**

Ffoniwch: **0800 260 5052**

E-bostiwch: **BST@dwrcymru.com**

Ewch i: **business.dwrcymru.com/business-services**

